



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Partneriaethau SMART

Sut mae Partneriaethau SMART yn gweithio?

Mae Partneriaethau SMART yn cynnig help ariannol i brosiectau cydweithredol ac arloesol sydd ag angen help arbenigwyr arnyn nhw i dyfu, i fod yn fwy cynhyrchiol ac i fod yn fwy cystadleuol.

Pwyslais clir y cynllun yw cynyddu capasiti busnesau Cymru a meithrin eu gallu i ddatblygu gweithgareddau ymchwil a datblygu trwy eu cysylltu â chyrff ymchwil ac â chynorthwy-ydd i'w helpu i weithio ar brosiect sy'n datblygu gwasanaeth, cynnyrch neu broses newydd.

Rhan-ariennir y prosiectau hyn gan Lywodraeth Cymru. Mae arian ar gael ar gyfer 50% o gostau cymwys prosiectau. Bydd yn rhaid i'r partneriaid busnes dalu am weddill costau cymwys y prosiect. Y sefydliad ymchwil fydd yn cael y cyllid. Bydd prosiectau'n para rhwng 6-12 mis.

Amcan Partneriaethau SMART yw cefnogi prosiectau ymchwil a datblygu cydweithredol trwy eu helpu i drosglwyddo gwybodaeth a thechnoleg a lledaenu sgiliau technegol a busnes. Hefyd, mae Partneriaethau SMART yn anelu at symbylu a gwella ymchwil a datblygu a hyfforddiant sy'n berthnasol i fusnesau. Mae prosiectau ymchwil a datblygu cydweithredol yn caniatáu i fusnesau ac ymchwilwyr weithio gyda'i gilydd er mwyn datblygu cynnyrch newydd ymddangos mewn meysydd gwyddonol, technegol a pheiranyddol pwysig.

Ai i chi y mae hwn?

Eich uchelgais yw cynhyrchu cynnyrch, proses neu wasanaeth llwyddiannus newydd sy'n cyfrannu at helpu'ch busnes a'r economi i dyfu. Mae gennych brosiect cydweithredol ac mae angen cyngor arbenigol arnoch i helpu'ch busnes i dyfu, i gynhyrchu mwy ac i fod yn fwy cystadleuol. Mae'r prosiect yn ymateb i ofynion y busnes, a bydd angen i'r busnes bach a chanolig allu dangos bod ganddo'r capasiti a'r adnoddau i wneud y gorau o ganlyniadau'r prosiect.

Pwy sy'n cael cymryd rhan?

Busnesau bach a chanolig o Gymru sy'n cydweithio â sefydliadau ymchwil o Gymru. Rhaid i'r prosiect brofi bod angen arian cyhoeddus arno i fynd yn ei flaen.

I gael gwybod a ydych yn gymwys, darllenwch fwy am Bartneriaethau SMART yn <https://businesswales.gov.wales/expertisewales/cy/partneriaethau-smart>

I ddysgu mwy am Bartneriaethau SMART | 03000 6 03000
innovation@llyw.cymru | businesswales.gov.wales/expertisewales/cy

Busnes | Business
Cymru | Wales

arloesi